OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 3165

# Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2007

## RHAN 1

Cyflwyniad

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau dŵr Mwynol Naturiol, dŵr Ffynnon a Dwr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2007, maent yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 28 Tachwedd 2007.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "yr Asiantaeth" ("*the Agency*") yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd;

ystyr "awdurdod perthnasol" ("*relevant authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;

ystyr "crynodiad neu werth a ragnodwyd" ("*prescribed concentration or value*"), o ran unrhyw baramedr, yw'r crynodiad neu werth a bennir ynghylch y paramedr hwnnw yn unrhyw Dabl yn Rhan 2 o Atodlen 2 fel y mesurir ef drwy gyfeirio at yr uned fesur a bennir felly;

ystyr "Cyfarwyddeb 80/777" ("*Directive 80/777*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 80/777/EEC ar gyd-ddynesiad cyfreithiau'r Aelod-wladwriaethau ynghylch datblygu a marchnata dŵr mwynol naturiol(**1**);

ystyr "Cyfarwyddeb 98/83" ("*Directive 98/83*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 98/83/EC ynghylch ansawdd dŵr a fwriedir ar gyfer ei yfed gan bobl(**2**);

ystyr "Cyfarwyddeb 2003/40/EC" ("*Directive 2003/40/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2003/40/EC sy'n sefydlu'r rhestr, terfynau crynodiad a gofynion labelu ar gyfer ansoddau dŵr mwynol naturiol a'r amodau ar gyfer defnyddio aer a gyfoethogwyd gan osôn ar gyfer trin dŵr mwynol naturiol a dŵr ffynhonnau(**3**);

ystyr "dŵr mwynol naturiol" ("*natural mineral water*") yw dŵr—

(a) sy'n iachus yn ficrobiolegol;

(b) sy'n tarddu o lefel trwythiad neu ddyddodion tanddaearol ac sy'n codi allan o ffynnon a dapiwyd mewn allanfa neu allanfeydd naturiol neu wedi'u tyllu;

(**1**) OJ Rhif L229, 30.8.80, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1882/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n addasu at Benderfyniad y Cyngor 1999/468/EC y darpariaethau ynghylch Pwyllgorau sy'n cynorthwyo'r Comisiwn wrth arfer ei bwerau gweithredu a osodir mewn offerynnau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o Gytuniad EC (OJ Rhif L284, 31.10.2003, t.1).

(**2**) OJ Rhif L330, 5.12.98, t.32.

(**3**) OJ Rhif L126, 22.5.2003, t.34.

(c) y gellir ei wahaniaethu'n amlwg oddi wrth dŵr yfed cyffredin oherwydd y nodweddion canlynol a gafodd eu cadw'n ddifreg oherwydd tarddiad tanddaearol y dŵr, a rhaid bod y tarddiad hwnnw wedi cael ei ddiogelu rhag pob risg o lygredd—

(i) ei natur, a nodweddir gan ei gynnwys mwynol, elfennau hybrin neu ansoddau eraill a, pan fo hynny'n briodol, gan effeithiau penodol,

(ii) yn ei gyflwr gwreiddiol; ac

(ch) sydd am y tro'n cael ei gydnabod yn unol â rheoliad 4;

ystyr “dŵr mwynol naturiol eferw” (“*effervescent natural mineral water*”) yw dŵr mwynol naturiol sydd, yn ei ffynhonnell neu ar ôl ei botelu, yn gollwng carbon deuocsid yn ddigymell ac mewn dull a welir yn eglur o dan amodau tymheredd a phwysedd arferol;

ystyr “dŵr yfed” (“*drinking water*”) yw dŵr a fwriadwyd ar gyfer ei yfed gan bobl heblaw —

(a) dŵr mwynol naturiol; neu

(b) dŵr a botelwyd mewn potel wedi'i marcio neu wedi'i labelu “spring water” neu “dŵr ffynnon” yn unol â rheoliad 11;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

mae i “hysbyseb” a “hysbysebu” yr ystyr a roddir i “*advertisement*” ac “advertise” yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Labelu Bwyd 1996(**4**);

mae “gwerthu” (“*sell*”) yn cynnwys cael rhywbeth yn eich meddiant i'w werthu, cynnig neu ddangos neu hysbysebu rhywbeth i'w werthu;

ystyr “paramedr” (“*parameter*”) yw priodwedd, elfen, organeb neu sylwedd a restrir yn yr ail golofn o unrhyw Dabl yn Rhan 2 o Atodlen 2;

ystyr “potel” (“*bottle*”) yw cynhwysydd caeedig o unrhyw fath y gwerthir dŵr ynddo i'w yfed gan bobl neu o'r lle y daw dŵr a werthir i'w yfed gan bobl ohono, a dehonglir “potelu” ac ymadroddion cytras yn unol â hynny; ac

ystyr “techneg awdurdodedig i ocsidio aer a gyfoethogwyd ag osôn” (“*authorised ozone-enriched air oxidation technique*” ) yw—

(a) triniaeth ag aer a gyfoethogwyd ag osôn a awdurdodwyd ac a gyflawnwyd yn unol ag Atodlen 1; neu

(b) yn achos dŵr a ddygwyd i Gymru o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig neu o Wladwriaeth AEE arall, triniaeth sy'n cydymffurfio ag Erthygl 5 o Gyfarwyddeb 2003/40 fel y'i gweithredir yn y rhan honno o'r Deyrnas Unedig neu'r Wladwriaeth AEE honno.

(2) Mae i ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yng Nghyfarwyddeb 80/777 neu Gyfarwyddeb 98/83 yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag sydd iddynt yn y Gyfarwyddeb o dan sylw.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl neu Atodiad â Rhif , ac eithrio lle yr ymddengys bwriad i'r gwrthwyneb, yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodiad sy'n dwyn y Rhif hwnnw yng Nghyfarwyddeb 80/777.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at farcio neu labelu potel yn cynnwys y marcio a'r labelu a wnaed cyn bod unrhyw ddŵr yn cael ei botelu a'r marcio a'r labelu a wnaed ar ôl potelu.

### Esemptiadau

**3.**—(1) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i unrhyw ddŵr —

(a) sydd â thrwydded cynnyrch a ddyroddwyd o dan ddarpariaethau Deddf Meddyginiaethau 1968(**5**), neu awdurdodiad marchnata o fewn ystyr Rheoliadau Meddyginiaethau ar gyfer

(**4**) O.S. 1996/1499, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**5**) 1968 p. 67.

Defnydd Dynol (Awdurdodiadau Marchnata etc.) 1994(**6**), neu awdurdodiad marchnata o fewn ystyr Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2005(**7**);

(b) sy'n ddŵr mwynol naturiol a ddefnyddir yn ei darddiad at ddibenion iachaol mewn sefydliadau thermol neu hydrofwynol;

(c) nas bwriadwyd ar gyfer ei werthu i'w yfed gan bobl; neu

(ch) sy'n ddŵr mwynol naturiol y bwriedir ei allforio i wlad heblaw Gwladwriaeth AEE.

(2) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i ddognau o rew a becynnwyd a fwriadwyd ar gyfer eu defnyddio i oeri bwyd.

(**6**) O.S. 1994/3144; y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**7**) O.S. 2005/2745.